



**CYNGOR BRO MORGANNWG
SWYDDFEYDD DINESIG, HEOL HOLLTWN,
Y BARRI CF63 4RU**

RHODDIR HYSBYSIAD yn unol ag adran 42(1) Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, bod Cyngor Bro Morgannwg, ar ôl ymgynghori â'r bobl ofynnol, yn cynnig gwneud addasiadau a reoleiddir i'r ysgolion fel a ganlyn drwy:

- Newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11 - 19 i 3 – 19 oed;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gyfun y Bont-faen o 1,586 o leoedd i 1,796 o leoedd i roi lle i 210 o blant ysgol gynradd Saesneg gyda 48 o leoedd rhan amser ychwanegol mewn meithrinfa; a
- Chodi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer y lleoedd cynradd a meithrin.

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.3 yn cyfeirio at Newidiadau Rheoledig mewn ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 200 o ddisgyblion ac ymestyn ystod oedran ysgol o flwyddyn neu fwy.

Crynodeb o'r cynnig:

Mae'r cynnig yn ymwneud ag Ysgol Gyfun y Bont-faen sy'n ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer dysgwyr rhwng 11 a 19 oed ac mae ganddi chapasiti o 1,586. Ar hyn o bryd, mae 1,586 disgybl ar y gofrestr. Mae'r ysgol yn: Aberthin Rd, Y Bont-faen, CF71 7EN.

Byddai'r cynnig yn arwain at 210 o leoedd cynradd yn Ysgol Gyfun y Bont-faen. Byddai agor y cyfnod cynradd yn cychwyn gyda 30 o leoedd derbyn a 48 o leoedd meithrin rhan-amser ar gael ym mis Medi 2022. Byddai nifer y disgyblion ar y gofrestr yn cynyddu bob blwyddyn wrth i'r disgyblion hyn symud ymlaen drwy'r cyfnod cynradd. Byddai'r cynnig yn cael ei weithredu'n llawn o fis Medi 2028.

Byddai'r dalgylch ar gyfer cyfnod cynradd yr ysgol 3-19 oed yn adlewyrchu dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Bont Faen.

Byddai adeilad newydd yn cael ei godi ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen. Byddai'r adeilad hwn yn ddigon i letya 210 o ddisgyblion a 48 o leoedd meithrin rhan-amser, yn unol â Bwletin Adeiladu 99, y fframwaith ar gyfer adeiladau ysgolion cynradd.

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu trafniadaeth ysgol am ddim i blant o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. Yn unol â 'Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008'.

Mae'r dalgylch arfaethedig yn gymharol fach oherwydd dwysedd y boblogaeth yn y Bont-faen ac ni ragwelir y byddai gan lawer o ddisgyblion hawl i gael cludiant am ddim i'r ysgol. Er enghraifft, ar hyn o bryd nid oes gan unrhyw ddisgyblion hawl i gael cludiant ysgol am ddim i Ysgol Gynradd y Bont Faen.

Ymgynghoriad:

Ymgwymerodd Cyngor Bro Morgannwg â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg yn y cyfeiriad canlynol:

[Ehangu Darpariaeth Gynradd yn y Bont-faen \(Cam 1\) \(vleofglamorgan.gov.uk\)](http://vleofglamorgan.gov.uk)

Cyflwyno gwrthwynebiadau:


Yn unol ag adran 49 y 'Ddeddf', gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hynny yw erbyn diwedd y **9 Chwefror 2021**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i 21stcenturyschools@vleofglamorgan.gov.uk neu:

Paula Ham,
Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau,
Cyngor Bro Morgannwg,
Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holltwn,
y Barri
CF63 4RU

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnod:



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau
13 Ionawr 2021